**Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**

**Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021**
**11:30-13:00**
**MS Teams**
**Cofnodion**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Y Cyng. Carol Clement-Williams (Castell-nedd Port Talbot)
Y Cyng. Aled Davies (Powys)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**
Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu’r Argyfwng COVID
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Matt Wellington – Cyllideb a Busnes y Llywodraeth

**YMDDIHEURIADAU**
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelod newydd, y Cyng. Aled Davies, i’r grŵp, a hefyd nododd ei diolch i Peter Fox ac Alun Michael am eu cyfraniadau i’r grŵp dros nifer o flynyddoedd. Cofnodwyd

ymddiheuriadau gan y Cyng. Rob Stewart a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn.

**Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Diweddariad gan y Gweinidog**

3. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynllunio'r gyllideb, gan gynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a dyddiadau allweddol, gyda bwriad i gyhoeddi'r gyllideb ddrafft a'r setliad dros dro ar 20 a 21 Rhagfyr yn eu tro, a chyhoeddi'r gyllideb a'r setliad terfynol ar 1 Mawrth.

4. O ran Diwygio Cyllid, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai materion penodol yn cael eu rhoi ger bron y grŵp hwn, yn ogystal ag amryw o grwpiau cefnogi ar lefel swyddogion, ac ailadroddodd ei chynnig i ddarparu briffio technegol.

5. **Cam gweithredu: Swyddogion i ailddosbarthu'r Crynodeb o'r Casgliadau ar gyfer diwygio cyllid ac i fesur y diddordeb mewn cael gwybodaeth friffio dechnegol.**

6. Trafododd y grŵp y potensial ar gyfer cynnal adolygiad o fformiwla cyllid y setliad, a chadarnhaodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn pe bai llywodraeth leol yn dod i gytundeb drwy CLlLC ei bod yn dymuno cael adolygiad o'r fformiwla.

**Eitem 4: Diweddariad gan CLlLC**

7. Cyflwynodd CLlLC bapur yn amlinellu'r pwysau ariannol, sydd wedi eu modelu, sy'n wynebu llywodraeth leol hyd at 2023-24, ac yn benodol, y costau y mae llywodraeth leol yn parhau i'w hwynebu o ganlyniad i COVID. Ymrwymodd y Gweinidog i barhau â'r gronfa galedi am weddill 2021-22.

8. **Cam gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddosbarthu nodyn ar ddefnyddio'r gronfa galedi ar gyfer gweithgareddau gorfodi.**

**Eitem 5: Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu**

9. Cofnododd y Gweinidog ei diolch i'r ddau aelod o'r Is-grŵp Dosbarthu, Dilwyn Williams ac Andrew Stephens, a oedd wedi gwasanaethu ar y grŵp ers amser hir, ac a oedd wedi ymddeol o'u swyddi mewn llywodraeth leol yn ddiweddar.

10. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gwaith yr Is-grŵp Dosbarthu, a chadarnhaodd CLlLC y byddai trafodaeth gydag arweinwyr llywodraeth leol ynghylch cynnal adolygiad posibl o fformiwla'r setliad yn cael ei chynnal y diwrnod ar ôl y cyfarfod. Nododd y Cyng. Mark Pritchard nifer o bryderon ynglŷn â'r fformiwla bresennol, yn benodol sut yr oedd y Gronfa Ardrethi Annomestig yn cael ei dyrannu.

11. **Cam gweithredu: Y Cyng. Pritchard i ysgrifennu at y Gweinidog i nodi ei bryderon.**

**Eitem 6: Diweddariad gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

12. Cyflwynodd Peter Curran bapur yn amlinellu'r pwysau sy'n wynebu'r Heddlu yng Nghymru, a hefyd cyfeiriodd at bwysau eraill megis yr ardoll brentisiaethau a chyllid ar gyfer camerâu cylch cyfyng.

**Eitem 7: Unrhyw faterion eraill**

13. Gofynnodd y Cyng. Pritchard pam nad oedd cais am gyllid i amddiffyn rhag llifogydd yn Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus.

14. **Cam gweithredu: Y Gweinidog i godi'r mater gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

**Cloi**